CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 07 Ionwar 2019. am 8.00yh.
Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

ALED VAUGHAN
Cyflwynwyd gwybodaeth gan Aled Vaughan ynglŷn â sut i wneud cais ariannol i gronfa'r melinau gwynt.

AGENDA
Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Tachwedd.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.
Roedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad na fyddai'r cwmni oedd gan y Cyngor Sir yn archwilio'r adnoddau chwarae tan mis Ionawr neu fis Chwefror.
Roedd y Clerc wedi danfon llythyr at y Cylch Meithrin yn cadarnhau y byddai dyddiad gosod toiledau ar y safle yn cael ei ymestyn tan 31/10/2019.
Penderfynwyd y byddai'r Clerc holi am gost toiledau a fyddai'n cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer plant.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd adroddiad o gyfarfod mis Tachwedd ar y wefan; byddai'n ymddangos yn y rhifyn nesaf o 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader.'

Y TŶ HERS
Roedd y Clerc wedi danfon llythyr at CFFI Llanllwni yn egluro bod y gwaith wedi ei gwblhau ar yr adeilad.

AWEL Y MYNYDD
Yr oedd y Clerc wedi cysylltu â'r Swyddfa yn Llandysul ond nid oedd unrhw ddatblygiad pellach ynglŷn â'r Blwch Postio.

LLOGI'R NEUADD
Yr oedd y Clerc wedi talu am logi'r Neuadd am y cyfnod 01/04/2018 – 31/03/2019.

CINIO BLYNYDDOL
Bydd y ginio flynyddol ar 18 Ionawr 2019 am 8yh yn y
Belle Vue.

TYLLAU YN YR HEWL
Ger Neuadd Deg; Hewl Maesnonni .Roedd y gwaith wedi eu gwblhau.

Penderfynwyd cefnogi Tenovus (Gofal Canser); Eisteddfod Gwyl y Banc Awst Llanbedr Pont Steffan; Llifogydd Pontweli Llandysul

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 11 Mawrth 2019 am 8.00yh.